



**CYNGOR TREF
LLANFAIRFECHAN
TOWN COUNCIL**



Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan Ffordd y Pentref Llanfairfechan LL330AB

Maer: Cyng Chris Jones

Dirprwy Faer: Cyng Laura Fielding

**AGENDA CYFARFOD Y CYNGOR TREF NOS FERCHER, Ionawr yr 11^{eg}
2023**

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLIL 1972 Atodlen 12)
3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Datgelu diddordeb personol, neu ragfarnol)
4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd.

Yn Ymweld:

1. Swyddog Rhawd Gymunedol Heddlu Gogledd Cymru Michael Couling i drafod plismona yn yr ardal
2. Prif Weithredwr Clwb Achub Bywyd O'r Môr Llanfairfechan Chris Munro a Ruth Iliffe i drafod Ffin a Ffoil 2023
5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Rhagfyr y 7^{fed} 2022 a'r rhestr weithredu gyfredol (DLIL1972 Atodlen 12)
6. Cymeradwyo Cais Archebiant 2023/2024 Cyngor Tref Llanfairfechan:
7. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo'r datblygiadau ar gyfer Prosiect Gwella Glan y Môr
8. Derbyn a thrafod Cynllun Cymunedol Kickstarter sydd i'w lansio ar Ionawr yr 22^{ain} 2023
9. Derbyn a chymeradwyo Adroddiadau Ariannol Ionawr 2023
10. Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ar gyfer Ionawr 2023

Ymuno gyda'r cyfarfod Zoom
<https://us02web.zoom.us/j/89226086339?pwd=M095bHNaZWVxejhjYVU0RzVUYkpmQT09>
 Rhif Adnabod: 892 2608 6339
 Cyfrinair: 802700

Taliadau i'w cyflwyno

1. Clwb Pêl-droed Llanfairfechan **£2288.00**
2. Banc Bwyd Llanfairfechan **£3000.00**
1. Sional General dylunio baneri siop **£1172.86**
2. Delwedd gwe-letya a chynnal a chadw **£25.20**
3. Sgipiau Cymunedol CBSC
4. Sgipiau Cymunedol CBSC
5. Cyfoga'u'r Staff a'r cyfraniadau Pensiwn ar gyfer Tachwedd 2022 **£4700**
6. Menter Iaith
7. Smithy Fires blacksmith polion baneri a'u gosod **£881.00**

Taliadau ôl-ddyddiedig

1. British Gas Cae Chwaraeon MUGA (Man Chwaraeon Aml-ddefnydd) **£50.26**
2. Erw Feiriol Dŵr Mehefin y 1^{af} hyd at Dachwedd y 30^{ain} 2022 **£121.59**
3. Gerddi Fictoria dŵ'r Mai'r 12^{fed} hyd at Dachwedd y 14^{eg} 2022 **£23.28**
4. Gwaith brys CBSC i ail-lenwi ceudyllau Gerddi Fictoria **£167.68**
5. Trwydded TENS Kirsty Merrell Daily ym mis Ionawr **£21.00**

6.	Gwasanaethau Ambiwylans Cenedlaethol, Tân Gwyllt, Sul y Cofio a'r Ffair Nadolig	£648.00
7.	Afternoon 2 a Tea Crwst a Chacennau Nadolig o Lwfans y Maer	£36.50
8.	Ad-dalu Clerc y Dref am Ddiodydd Nadolig o Lwfans y Maer	£19.97
9.	Ad-dalu Clerc y Dref am baneidiau i'r masnachwyr yn y Ffair Nadolig	£20.81
10.	Mel Owen Anfoneb gwiriadau PAT	£98.40
11.	Kirsty Merrell Daily Sêr Pren ar gyfer Siôn Corn y Ffair Nadolig	£30.98
12.	Menter Iaith anfoneb heb ei thalu	£54.65
13.	Ail-osod Diffibriliwr yn y Neuadd Gymunedol	£1062.00
14.	Archeb Viking	£258.35

11. Trafod materion cynllunio

Dim materion cynllunio i'w trafod

12. Derbyn gohebiaeth

- Croesfan ger y Co-op
- Tai bach cyhoeddus yn Llanfairfechan

13. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd

14. Derbyn pryderon a chanmoliaethau brys

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF AR NOS FERCHER, Ionawr yr 11^{eg} 2023

Presennol: Cadeirydd: Maer Chris Jones; Dirprwy Faer Laura Fielding; Cyng Penny Andow; Cyng Leena Farhat (ar Zoom); Cyng Andrew Hinchliff; Cyng Gareth Jones; Cyng Nia Jones; Cyng Alun Rhys Jones; Cyng Christine Roberts; Cyng Preben Vangberg; Clerc y Dref Jayne Neal

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod

2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLIL 1972 Atodlen 12)

Cyng Pat Griffiths, Cyng Claire Hughes; Cyng Elgan Owen; Cynghorydd Sir Jacob Williams

Penderfynwyd derbyn a nodi

3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – ((Datgelu diddordeb personol neu ragfarnol)

Dim datganiadau o ddiddordeb

derbyn a nodi

Penderfynwyd

4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd.

Un aelod o'r cyhoedd – ni ofynnwyd am sylwadau nac ymholiadau

Swyddog Rhawd Gymunedol Heddlu Gogledd Cymru Heddwys Michael Couling i drafod plismona yn yr ardal

Cafodd un pryder penodol ei godi ynghylch digwyddiadau gwrth-gymdeithasol gan breswilydd o Lanfairfechan. Cafodd hyn ei godi yn y cyfarfod diwethaf a daeth yr Heddwys Couling i'r cyfarfod er mwyn ymateb i gwestiynau. Soniwyd bod yr unigolyn hwn wedi gadael y wlad ar hyn o bryd ac fe gawn ni'n hysbysu os bydd o'n dychwelyd. Fe dderbyniodd orchymyn Dim Gweithredu Pellach (NFA) gan yr heddlu. Ni chafodd yr achos ei gyflwyno ger bron y llys gan nad oedd digon o dystiolaeth, ond fe gwblhawyd gwaith o dan y ddeddfwriaeth Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol. Mewn achosion o'r fath, mae'r heddlu'n cydweithio gyda mudiadau eraill er mwyn lleihau'r risg o ddigwyddiadau pellach. At hyn mae asiantaethau'n cadw cysylltiad agos gyda'r heddlu er mwyn cynnig y diweddaraf am y sefyllfa.

Cwestiwn 1 Beth fydd yn digwydd os bydd o'n dychwelyd i'r dref? Mae'r unigolyn wedi derbyn llythyr rhybudd a chofnod o'r holl wybodaeth. Gallai unrhyw ddigwyddiadau pellach arwain at fesurau o dan y Ddeddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol – gellir cyflwyno Hysbysiad Diogelu'r Gymuned a gallai torri'r gorchymyn yn barhaus dros 3-6 mis arwain at Gytundeb Ymddygiad Derbyniol. Gallai torri'r cytundeb hwn arwain at wŷs i'r llys er mwyn ystyried Gorchymyn Ymddygiad Troseddol. Y brif neges ydy y dylai unrhyw un sydd â phryderon roi gwybod i'r heddlu er

mwyn cofnodi'r digwyddiadau. Os bydd trosedd yn digwydd ar unrhyw adeg, fe gaiff ei ymchwilio ac fe gaiff yr unigolyn ei gyhuddo felly os oes tystiolaeth ddigonol ar gael.

Cwestiwn 2 A oes hawl gan y bobl hynny sy'n teimlo o dan fygythiad recordio'r digwyddiad ar ffôn?

Oes, fe gaiff hyn ei ganiatáu ond rhoddwyd rhybudd y gallai hyn brocio sefyllfa beryglus felly dylid bod yn ofalus.

Cwestiwn 3 Beth ydy'r camau gweithredu er mwyn calonogi'r bobl hynny yn y dref sy'n teimlo'n agored i niwed?

Mae rhai pobl wedi newid eu hymddygiad yn sgil y pryderon. Dydy'r merched heb fod yn cerdded y mynyddoedd ac maen nhw'n teimlo'n llai diogel. Mae dioddefwr y digwyddiad cychwynnol wedi'i heffeithio'n sylweddol a dydy hi heb fod yn mentro allan ers hynny. Yn ôl yr adroddiadau, bu'n brofiad brawychus. O ganlyniad mae pobl wedi colli eu rhyddid ac mae'r preswylwyr yn teimlo wedi'u siomi. Soniodd y Cyng ei fod yn siomedig nad oedd modd gwneud mwy ynghylch y mater.

Yr oll allai'r heddlu ei wneud ydy rhoi sicrwydd bod sawl asiantaeth ynghlwm a bod cynllun ar waith. Y brif neges ydy y dylai unrhyw un sydd â phryderon roi gwybod i'r heddlu er mwyn cofnodi'r digwyddiadau. Mae'r Swyddog Cefnogi Cymuned yr Heddlu (PCSO) Sara ar gael yn y dref yn rheolaidd ac mae hi'n cynnal cymhorthfa fisol – mae hi wrthi'n trefnu'r dyddiadau ar gyfer 2023 ac mae'n bosibl y bydd yn symud i Fan Cynnes y llyfrgell ar ddydd Mercher.

Cwestiwn 3 A fydd yr wybodaeth am yr unigolyn hwn yn cael ei rhannu gydag ardaloedd eraill er mwyn sicrhau eu bod nhw'n ddiogel hefyd?

Bydd, mae yna systemau ar waith er mwyn hysbysu ardaloedd newydd am unrhyw bryderon blaenorol.

Cwestiwn 4 Amherthnasol i'r wybodaeth flaenorol. Ydy Heddlu Gogledd Cymru'n gweithio gyda'r rhaglen Angylion y Stryd?

Mae peth gwaith wedi'i gyflawni yn y gorffennol a bydd y swyddogion yn adrodd yn ôl am y sefyllfa gyfredol.

Estynnwyd diolch i'r Heddwys PC Couling a Swyddog Cefnogi Cymuned yr Heddlu Conwy Bev Owen, am ddod i'r cyfarfod a soniwyd bod y tîm heddlu'n cadw cyswllt rheolaidd gyda Chlerc y Dref er mwyn derbyn a rhannu gwybodaeth i sicrhau bod y diweddaraf ar gael am sefyllfaoedd dan sylw.

Penderfynwyd derbyn a nodi

Swyddog Datblygu Cenedlaethol y Gymdeithas Hwylion Frenhinol a'r Prif Weithredwr Chris Munro a Ruth Iliffe i drafod Ffin a Ffoil 2023:

Bu i'r Cyngor wylion cyflwyniad gydag adolygiad ar yr ŵyl eleni a gostiodd £4500 i'w cynnal. Soniwyd bod y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol ac fe gynhaliwyd y sesiynau canlynol:

- 56 x Sesiwn blasu (hwyl neu wynt)
- 6x Sesiwn Dosbarth Meistr (hwyl)
- Cyflenwyr masnachu
- Diwrnod Arddangos – Rhoi cynnig ar gyfarpar newydd i'r rheiny sydd wedi cymryd rhan eisoes
- Galw draw i Hwylion/Hwylfyrrddio ar gyfer unigolion profiadol (yn ddibynnol ar y tywydd)
- Rasio Wingfoil – Tro 1af yng Nghymru!
- Sesiwn blasu Padlfyrrddio am ddim - Ffit Conwy
- Ioga am ddim
- BBQ

Mae heriau ynghlwm â phen pellaf y lanfa yn Llanfairfechan gan nad oes llwybr llyfn yn arwain ato o'r traeth. Fodd bynnag, mae'r tîm wedi ymrwmo i gynnal y digwyddiad Ffin a Ffoil eto yn Llanfairfechan ym mis Mai 2023. Soniwyd y bydd hwn yn un o dim ond tri o ddigwyddiadau sylweddol a gynhelir yn genedlaethol gan yr RYA felly mae'n gyfle arbennig. Awgrymai'r adborth o'r digwyddiad diwethaf y byddai noson gerddoriaeth a bwyd yn boblogaidd yn ogystal. Hoffai'r pwyllgor fwrw iddi i ganfod partneriaid er mwyn cynnal y digwyddiad hwn. Y nod ydy rhagori ar llwyddiant digwyddiad 2022 drwy ennyn diddordeb mewn chwaraeon dŵr newydd. Soniwyd gallai 'winging and foiling' fod y chwaraeon dŵr poblogaidd newydd ac mae cyfle i ennyn diddordeb pobl ifanc yn arbennig er mwyn datblygu uchelgeisiau lefel Olympaidd. Estynnwyd llongyfarchiadau i'r tîm RYA am eu digwyddiad gwyach yn 2022 ac mae'r Cyngor Tref yn awyddus i gefnogi'r digwyddiadau gan edrych tua'r dyfodol. Cytunwyd y byddai'r tîm a Chlerc y Dref yn cadw mewn cysylltiad er mwyn cyfnewid gwybodaeth a pharhau i gynllunio partneriaethau posibl.

Penderfynwyd derbyn a nodi

5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Rhagfyr y 7fed 2022 a'r rhestr weithredu gyfredol (DLIL1972 Atodlen 12)

Materion yn Codi:

Pwynt 6.2 Nodwyd bod y Banc Bwyd ond yn gwario arian ar eitemau bwyd felly doedd dim angen gwybodaeth ychwanegol. Cafodd eglurhad ynghylch y cyfraniadau misol – mae nifer o bobl yn awyddus i gyfrannu'n rheolaidd felly fe ofynnwyd am wybodaeth ynghylch sut i wneud hynny.

Rhestr Weithredu:

Cyngor Tref Llanfairfechan Town Council Action List		
Date: 11th January 2023		
Item:	Date:	Progress
Nant y Pandy car park	10/01/2023	information to discuss
Paddling Pool	10/01/2023	email received to discuss
Promenade car park & flood protection	04/10/2022	awaiting notification from WG
Bus stop damage Y Bont west	10/01/2023	email sent to CCBC
Benches project	new quote	to discuss quote is now £750 (£680 previously)
Station Road Garden	10/01/2023	agreement sent work up for Feb 1st meeting
Victoria Gardens beams	10/01/2023	PO sent and email to ok the work
Glan y Mor Elias & Morfa Madryn project	update	To discuss - all Pos have been sent out and building work started
Victoria Gardens gates	next meeting	awaiting final plans from CCBC
MUGA West Shore	progressing	need meeting to discuss and plan for the future
Cenotaph - mural	future meeting	on hold for discussion on future agenda
Community Library	update	Project Officer now working there on Weds + liaising with Committee
Petanque court	awaiting	reminder email sent 10/01/2023
Audit	completed	awaiting reponse no queries sent through
Kickstarter Community Plan	update	partnership meeting 25th January at 6:30pm
Festive Fayre Winter Sounds and xmas lights	update next time	celebrations went well - Community Events report due in February
Flags project	update	Flags have been well received. To discuss - flags for St David's?

Maes Parcio Nant y Pandy – Caniatâd cynllunio ffurfiol wedi'i gymeradwyo ar Ragfyr y 19eg 22. Gwaith yn datblygu ar y cyd â CBSC.

Prosiect Meinciau – oherwydd dyluniad gwahanol, mae'r dyfynbris wedi'i gynyddu i £750. Pawb yn gytûn fod hyn yn dderbyniol.

Man Chwaraeon Aml-ddefnydd – problemau sylweddol yn y Man Chwarae Aml-ddefnydd oherwydd bod angen rhoi wyneb newydd arni. Mae'r cwrt tenis ar agor ond nid yw mewn cyflwr delfrydol. Mae'r cwrt Pêl-fasged wedi cau oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch. Clerc wedi cysylltu gyda Chyngor Conwy i ofyn iddyn nhw am gydweithio er mwyn llunio cais i ailddatblygu'r ardal.

Llyfrgell – Gwaith yn mynd rhagddi'n dda yn y llyfrgell gymunedol. Mae'r sesiynau Mannau Cynnes yn boblogaidd, a bydd Gweithiwr Prosiect y Cyngor Tref yn mynychu pob dydd Mercher er mwyn helpu gyda hwyluso'r sesiynau. Mae sesiynau asiantaethau a diddordebau arbennig wedi'u trefnu eisoes. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cyflwyno agendâu a chofnodion i'r Cyngor Tref er gwybodaeth sy'n help mawr ar gyfer cynllunio gwaith partneriaeth. Gofynnwyd i'r Clerc gyflwyno llythyr o ddiolch i'r pwyllgor am eu holl waith caled ynghyd ag anfon llythyr o ddiolch at y llyfrgellydd sy'n cynnal y sesiynau Mannau Cynnes ar ddydd Gwener.

Baneri – Soniwyd bod y prosiect baneri siopau'n boblogaidd a gofynnwyd i'r Clerc am drefnu baner ar gyfer Caffi Riverside gan eu bod nhw wedi holi am un. Bu trafodaeth am faneri Dydd Gŵyl Dewi – y Clerc i ymchwilio opsiynau.

Cynigwyd gan y Cyng. N Jones Eiliwyd gan y Cyng. C Roberts Penderfynwyd derbyn a nodi

6. Cymeradwyo Cais Archebiant 2023 / 2024 Cyngor Tref Llanfairfechan

Cafodd yr archebiant arfaethedig ei gytuno dros dro yn ystod y cyfarfod ym mis Tachwedd a bu i Bwyllgor Cyllid pellach dderbyn yr archebiant dros dro. Soniwyd am ddau bwynt ychwanegol:

Eitem 1 Adnoddau – roedd e-bost wedi dod i law gan Gyngor Conwy ar Ionawr y 10fed am gais ariannol ar gyfer y pwll padlo. Roedd y gost yn £3,766.50 – cynnydd o £1883.25. Mae hwn yn swm digynsail ac yn golygu y byddwn yn talu mwy am ein pwll padlo ni na'r rhai yn Llandrillo-yn-rhos neu Benmaenmawr er ei fod yn llai. Anfonwyd ymateb cadarn at Gyngor Conwy a bydd y Cynghorydd Sir yn cyflwyno'r mater hwn ger bron deiliad y Swydd Cabinet. Soniwyd fod hwn yn fater lles gan fod y cyfleuster hwn yn bwysig iawn i breswylwyr Llanfairfechan. Bu i'r archebiant drafft ganiatáu cynnydd o £500 am ben y £1883.50 wnaethon ni dalu yn 2022. Fodd bynnag, pryder pellach ydy bod angen cynnal profion llithro ar byllau padlo a does dim modd sicrhau y byddan nhw'n agor os ydyn nhw'n methu'r prawf llithro. Cytunwyd na ddylid gwneud unrhyw ddarpariaeth bellach oni bai bod Conwy yn cyfiawnhau'r cynnydd sylweddol gyda dadansoddiad o'r costau.

Eitem 24 Cyflogau'r Staff - derbyniwyd e-bost gan Gymdeithas Cynghorau Lleol (SLCC) yn dangos y taliad cyflog ar gyfer 2022/23 ar gyfradd safonol o gynnydd sydd ychydig yn wahanol i'r cynllun i gynyddu'r cyflogau er mwyn bodloni gofynion y Sefydliad Cyflog Byw Cenedlaethol. Cytunwyd y dylid mynd rhagddi gyda'r taliad cyflog a gytunwyd arni ym mis Tachwedd gan fod sail resymegol amlwg ar gyfer y cyfraddau hyn ac mae'n cynnal yr hierarchaeth. Soniwyd y byddai cyfrifiad Band D yn cynyddu i 84.17 ynghlwm â'r cyfrifiad sylfaen treth ar gyfer eleni ond bydd hyn yn sicrhau ein bod yng nghanol y tabl o ran lefelau archebiant cymharol ledled Conwy. Mae'r cynnydd

yn anochel yn dilyn archebiannau sefydlog am ddwy flynedd ond fe gaiff £12,431 ei gaffael o'r gronfa wrth gefn er mwyn sicrhau cyn lleied o gynydd â phosibl.

Cynigwyd gan y Cyng A Hinchliffe Eiliwyd gan y Cyng G Jones Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

7. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo datblygiadau ar gyfer Prosiect Gwella Glan y Môr

Mae gwaith yn mynd rhagddi'n llwyddiannus gyda'r prosiect sydd wedi'i ariannu gan Gynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (EnRaw). Mae'r holl eitemau wedi'u harchebu a'r holl Rifau Archeb wedi'u hanfon. Bydd EPC Forestry yn gosod y meinciau, arwyddion ffordd a'r byrddau fel sydd wedi'i drefnu gan CBS Conwy a'r cynllun ydy cwblhau'r gwaith erbyn Sul y Mamau er mwyn cynnal lansiad ffurfiol. Mae'r prosiect sydd wedi'i ariannu gan y Carneddau i osod panorama mynyddoedd ar lwybr y cob wedi cyrraedd y cam dylunio terfynol a bu i bawb gymeradwyo a chytuno ar y cynllun.

Cynigwyd gan y Cyng A Hinchliffe Eiliwyd gan y Cyng G Jones Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

8. Derbyn a thrafod Cynllun Cymunedol Kickstarter sydd i'w lansiad ar Ionawr yr 22ain 2023

Dosbarthwyd y cynllun drafft ac fe soniwyd ei fod yn wych. Bu i Lanfairfechan chwarae rhan flaenllaw o ran y broses cynllunio cymunedol gyda rhagor o ac ystod fwy eang o ymatebion ymgynghori. Mae lansiad cyhoeddus wedi'i gynllunio ar gyfer y farchnad ar Ionawr yr 22ain. Fodd bynnag, y Grŵp Partneriaeth fydd yn penderfynu yn y pen draw. Gan fod eu cyfarfod i drafod y cynllun drafft ar ôl y dyddiad hwn, bydd y Clerc yn cysylltu gyda'r grŵp ac yn adrodd yn ôl.

Prosiect Santes Dwynwen a Sant Ffolant Cytunwyd i lansiad'r prosiect hwn yn y farchnad. Yn gyfnewid am gyfraniad at y Banc Bwyd, bydd cyfle i bobl gwblhau neges cariad ar galon cardbord i'w hongian yn y ffenest yn y neuadd. Bydd y prosiect ar waith o Ionawr yr 22^{ain} hyd at Chwefror y 14^{eg}.

Soniwyd y bu dathliadau'r Ffair Nadolig yn llwyddiant ysgubol a bu i dros 950 o bobl ymweld â'r neuadd yn ystod y dydd gyda mwy fyth yn ymweld â'r ardal ffair y tu allan. Caiff adroddiad adolygu ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

Penderfynwyd derbyn a nodi

9. Derbyn a chymeradwyo Adroddiadau Ariannol Ionawr 2023 – Ni chodwyd unrhyw ymholiadau

Cynigwyd gan y Cyng N Jones Eiliwyd gan y Cyng C Roberts Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

10. Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ar gyfer Ionawr 2023 – Ni chodwyd unrhyw ymholiadau

Ychwanegu dau swm –

Sgipiau Cymunedol £288.00 x 1 Ffordd Llannerch

Sgipiau Cymunedol Ffordd yr Orsaf x 2 ac 1 x Pendalar £864.00

Menter Iaith – yn aros am anfoneb ond bydd angen ei dalu cyn y cyfarfod nesaf. Mae'n oddeutu £250.00 fel arfer.

Cynigwyd gan y Cyng A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng G Jones Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

15. Trafod materion cynllunio – Dim materion cynllunio newydd i'w trafod
nodi

Penderfynwyd derbyn a

16. Derbyn gohebiaeth

1. Croesfan ger y Co-op

Mae hyn yn fater parhaus gyda chefnogaeth gan grŵp o breswylwyr. Mae'r mater wedi'i godi gyda CBS Conwy a Heddlu Gogledd Cymru yn y gorffennol. Mae'r grŵp preswylwyr yn bwriadu cynnal arolwg i wirio'r traffig. Bu pryderon ynghylch nad ydy'r asiantaethau ynghlwm yn ystyried yr ardal yn berygl. Mae yna broblemau gyda maes parcio'r Co-op sydd ddim o reidrwydd yn cael eu datrys wrth ddefnyddio'r groesfan goleuadau traffig. Fodd bynnag, dydy CBSC na Heddlu Gogledd Cymru ddim yn ystyried bod y traffig sydd ar y ffordd yn berygl digonol i fynd ati i greu croesfan. Mae'r Clerc wedi ymateb i'r e-bost ac mae mewn cyswllt gyda'r grŵp preswylwyr.

2. Tai bach cyhoeddus yn Llanfairfechan

Ymholiad gan breswilydd ynghylch y tai bach cyhoeddus – Soniodd y Clerc bod trafodaethau wedi dod i ben gyda CBS Conwy yn dilyn ymweliad safle ym mis Gorffennaf 2022. Cynigiodd y Cynghorydd Sir i fynd i'r afael â hyn yng Nghyngor Cyngor er mwyn derbyn mwy o wybodaeth.

3. Mater Cynllunio Y Benarth

Bu i breswylwyr godi pryderon difrifol, o ran er eu bod nhw wedi lleisio'u gwrthwynebiadau i CBS Conwy, ni wnaethon nhw dderbyn dyddiad y pwyllgor cynllunio ac felly nid oedd modd iddyn nhw fynychu i leisio'u barn yno. Mae'r mater hwn yn nwylo'r Rheolwr Datblygu ac Adeiladu er mwyn cynnig penderfyniad gohiriedig ac fe gynigiodd y Cynghorydd Sir i fynd ar drywydd hyn a lleisio'r pryderon am y broses briodol.

Penderfynwyd derbyn a nodi

17. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd

Dim adroddiadau o gyfarfodydd oherwydd y gwyliau Nadolig
derbyn a nodi

Penderfynwyd

18. Derbyn pryderon a chanmoliaethau brys

1. Gwybodaeth rhybudd traffig a llinellau wedi'u peintio ar fryn Caeffynnon – llawer gwell.
2. Roedd sesiwn codi sbwriel Llanfairfechan Di-blastig ar ddydd Sul a bu i 16 o wirfoddolwyr gasglu 70 KG o sbwriel. Diolch i'r trefnwyr ac i bawb wnaeth helpu. Fel canolfan Codi Sbwriel dynodedig, gallai grwpiau nôl cyfarpar codi sbwriel o'r Neuadd Gymunedol wrth drefnu gyda'r Clerc ar jayne@llanfairfechan.net
3. Cafwyd llawer o adborth cadarnhaol am y Prosiect Baneri
4. Mae mater cyffordd Parc Crescent wedi'i gyfeirio at y Cynghorydd Sir.
5. Adroddiad bod y llwyn yn gorhongian eto ger Drws y Nant – gwelwyd damwain fu bron a digwydd pan nad oedd modd i gerddwr ddefnyddio'r palmant oherwydd bod y canghennau'n gorhongian. Clerc i adrodd am hyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:30yh. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Fercher, Chwefror y 1^{af} 2023.